# Cod Ymddygiad Pwyllgor y Clwb

**Cyflwyniad**

Mae'r Clwb yn cydnabod cyfraniad enfawr y gwirfoddolwyr. Diben y Cod yma yw cynnal safonau ymddygiad uchel, cynorthwyo unigolion yn eu swyddi gwirfoddol a diogelu buddiannau gorau ein clwb. Caiff ymddygiad yn y Clwb ei yrru gan werthoedd ein clwb.

Mae'r Cod Ymddygiad yma ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn rhan o'n set gyffredinol o godau ymddygiad.

Dylai aelodau'r pwyllgor gynnal eu swydd yn bennaf oherwydd eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad a'u gallu i gyfrannu'n weithredol at redeg y clwb.

**Fel Aelod o Bwyllgor y Clwb, byddaf yn:**

✓ hyrwyddo gwerthoedd, nodau, rheolau a rheoliadau ein clwb drwy weithredu fel llysgennad ac eiriolwr, a phob amser yn ei gyflwyno a'i aelodau mewn golau cadarnhaol.

✓ gweithredu er lles y clwb yn gyfan gwbl nid dim ond unigolion neu grwpiau bach

✓ gwrando ar farn pobl eraill, a'i pharchu gan ddefnyddio iaith ac ymddygiad priodol a pharchus ar bob adeg

✓ helpu i sefydlu a chynnal set gynhwysfawr o reolau a rheoliadau ar gyfer y clwb, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gynnwys cofrestr risg y clwb i ddeall a chyfyngu ar unrhyw fygythiadau posibl i'r clwb

✓ rheoli arian y clwb er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian ym mhob achos ariannol y clwb

✓ hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu hawliau, urddas a gwerth yr holl bobl sydd wedi cysylltu â'r clwb, waeth beth fo'u rhyw, hil, statws priodasol, anabledd, rhywioldeb, oedran, meddiannaeth, crefydd neu farn wleidyddol

✓ cyfrannu'n weithredol at waith effeithiol Pwyllgor y Clwb trwy:

- paratoi'n dda ar gyfer cyfarfodydd trwy ddarllen yr holl bapurau sy'n cael eu dosbarthu cyn y cyfarfodydd
- presenoldeb, cyfranogiad a chyfraniad rheolaidd mewn cyfarfodydd gan gynnwys her adeiladol pan fo'n briodol
- ymdrin â materion ynghylch egluro'r agenda cyn cyfarfodydd a chynnal ffocws clir ar eitemau'r agenda mewn cyfarfodydd fel bod amser yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol
- parchu swydd "Cadeirydd y cyfarfod" i sicrhau ymddygiad trefnus cyfarfodydd a rheoli unrhyw wrthdaro
- ceisio dod i benderfyniadau trwy gonsensws a chefnogi penderfyniadau'r grŵp yn gyhoeddus, hyd yn oed os yw fy marn bersonol yn wahanol
- sicrhau ymateb amserol i gamau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw, a'u cwblhau
- cefnogi cyd-aelodau'r Pwyllgor wrth iddyn nhw arwain y clwb
- mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Clwb ac unrhyw gyfarfod arall pan fo angen

✓ mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a chymryd camau rhesymol i sicrhau fy mod yn gwybod am ddatblygiadau ii'r polisi chwaraeon ynghyd â materion eraill a allai effeithio ar fy swydd, neu'r clwb

**Fydda i ddim**

- yn ceisio gorfodi awdurdod unigol dros y clwb neu ei wirfoddolwyr, heblaw fel y nodir yn benodol mewn polisïau cytunedig neu fy meysydd cyfrifoldeb arweiniol penodedig
- yn cael fy nghipio'n llwyr o ran hyrwyddo fy marn fy hun mewn cyfarfodydd
- yn hel clecs neu'n gweithredu gyda gogwydd neu ragfarn tuag at eraill
- yn defnyddio iaith neu ymddygiad ymosodol neu wahaniaethol
- yn cadw'n dawel os oes gen i bryderon am y clwb
- yn methu â chyflawni fy ymrwymiadau fel aelod o'r pwyllgor
- yn anghytuno'n gyhoeddus â phenderfyniadau y mae'r pwyllgor yn eu cymryd fel grŵp, hyd yn oed os oes gen i farn bersonol wahanol
- yn yfed diodydd meddwol neu'n cymryd sylweddau anghyfreithlon nac ysmygu yn ystod cyfarfodydd

**Datgan Buddiant**

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Pwyllgor:

- cwblhau a llofnodi'r ffurflen(ni) Datganiadau Buddiannau chydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwrthdaro buddiannau'r clwb fel y'i diwygiwyd o dro i dro
- sicrhau nad yw diddordeb ariannol preifat neu bersonol yn dylanwadu ar benderfyniadau
- sicrhau nad yw'r swydd fel aelod o'r Pwyllgor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer elw personol
- datgelu unrhyw fuddiannau uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai ddylanwadu ar farn neu rhoi'r argraff bod y Pwyllgor neu aelod o'r Pwyllgor yn gweithredu am resymau personol

**Cyfrinachedd**

Ddylai aelodau'r Pwyllgor ddim trosglwyddo unrhyw wybodaeth gyfrinachol a enillwyd trwy eu cysylltiad â'r clwb i drydydd parti heb gymeradwyaeth y Cadeirydd.

**Deddf Llwgrwobrwyo'r Deyrnas Unedig**

Rhaid i aelodau'r pwyllgor fod yn effro i ofynion Deddf Llwgrwobrwyo Y Deyrnas Unedig 2010, a chydymffurfio â hi. Mae gan y ddeddf dau drosedd cyffredinol: -

- cynnig, addo neu roi mantais, a
- gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn mantais

[Noder: Mae'r drosedd yn berthnasol i lwgrwobrwyo sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus, sy'n gysylltiedig â busnes, wedi'i gyflawni yn ystod cyflogaeth unigolyn, neu wedi'i gyflawni ar ran cwmni neu gorff arall o bobl o'r fath fel pwyllgor eich clwb. Gall y swyddogaeth neu'r gweithgaredd gael ei gyflawni naill ai yn y Deyrnas Unedig neu dramor, a does dim angen unrhyw gysylltiad â'r Deyrnas Unedig. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â threfnu enillwyr gemau ymlaen llaw ac ati]

**Gweithgareddau Allanol**

Dylai aelodau'r Pwyllgor feddwl ar bob adeg y gallen nhw gael eu hystyried i fod yn lysgenhadon y clwb. Felly, dylen nhw sicrhau na fydd unrhyw un o'u gweithgareddau eraill yn yn dod ag enw gwael i'r clwb.

**Camymddwyn**

Gall ymddygiad aelod o'r pwyllgor gael ei ystyried yn anfoddhaol pan fyddan nhw wedi torri unrhyw rheolau clwb, rheoliadau, y Cod yma neu unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol.

Mewn achosion lle mae pryder y gallai ymddygiad aelod o'r Pwyllgor gael ei ystyried yn anfoddhaol, bydd y weithdrefn ganlynol yn cael ei gweithredu:

- Bydd y Cadeirydd yn trefnu bod ymchwiliad i unrhyw honiad o gamymddwyn yn cael ei gynnal er mwyn sefydlu'r ffeithiau.
- Bydd y Cadeirydd yn gwahodd dau aelod arall o'r Pwyllgor i ymuno ag ef/hi i ffurfio Panel Camymddygiad y Pwyllgor (y Panel). Bydd y Panel yn ystyried y ffeithiau a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd; os bydd cwyn yn ymwneud â'r Cadeirydd yna bydd yr Is-Gadeirydd (*neu swyddog cyfatebol arall y Pwyllgor)* yn ffurfio'r Panel.
- Bydd y Panel yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.
- Bydd y camau a gymerir yn dibynnu ar ddifrifoldeb y camymddwyn ac unrhyw gamymddygiad blaenorol.

Mewn achosion o gamymddwyn difrifol, bydd y Panel yn ceisio ymddiswyddiad gwirfoddol yr aelod o'r Pwyllgor. Os nad yw ymddiswyddiad o'r fath yn digwydd, bydd gweithdrefnau ffurfiol yn cael eu cymryd yn unol â rheoliadau'r clwb i gael gwared ar aelod o'r Pwyllgor.

Mae gan YR aelod o'r Pwyllgor yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad. Rhaid i'r unigolyn gyflwyno apêl ysgrifenedig i'r Cadeirydd o fewn 14 diwrnod o gael gwybod am beenderfyniad y Panel, gan nodi sail ar yr apêl. Bydd y Pwyllgor llawn (ac eithrio aelodau gwreiddiol y Panel a'r aelod o'r Pwyllgor sy'n apelio) yn gwrando ar unrhyw apêl o'r fath. Mae hawl gan y Cadeirydd i ofyn bod hyd at ddau aelod ychwanegol o'r clwb i'w cyfethol i'r panel apelio os nad oes cworwm gan aelodau eraill o'r Pwyllgor. Bydd gan yr aelodau ychwanegol brofiad perthnasol a'r hawl i bleidleisio. Bydd aelod o'r Pwyllgor yn gweithredu fel Cadeirydd am drafodaeth y panel apelio. Bydd penderfyniad y panel apelio yn derfynol.

Mewn achosion lle mae'r Cadeirydd yn teimlo ei bod yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd yr aelod dan sylw'n cael ei atal rhag ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor tra bod y mater yn cael ei ymchwilio.

**Cwynion Aelodau'r Pwyllgor**

Mae'r weithdrefn yma ar gyfer cwynion unigol yn cwmpasu'r materion hynny sy'n benodol i aelod unigol y Pwyllgor mewn perthynas â'i wasanaeth fel aelod o'r Pwyllgor, nid i unrhyw gwynion cyffredinol.

Os oes gan y Cadeirydd achwyniad am aelod arall o'r Pwyllgor, dylai ef / hi godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r aelod o'r Pwyllgor dan sylw. Os na fydd hyn yn dod i unrhyw gasgliad, bydd y Cadeirydd yn codi'r mater mewn llythyr at yr Is-gadeirydd (*neu swyddog benodol arall y Pwyllgor*). Bydd yr Is-gadeirydd yn ymchwilio a phenderfynu ar y camau gweithredu priodol mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd y Clwb [*neu swydd benodol arall e.e. Trysorydd os ydych chi wedi defnyddio'r Ysgrifennydd uchod].*

Os yw aelod o'r Pwyllgor yn dymuno codi achwyniad, dylai ef / hi ysgrifennu at Gadeirydd y clwb yn nodi'r rhesymau dros y cwyn.

Os yw'r achwyniad yn ymwneud ag aelod arall o'r Pwyllgor, dylai'r Cadeirydd ymchwilio a phenderfynu ar y camau gweithredu priodol. Os yw'r achwyniad yn ymwneud â'r Cadeirydd, yna dylai'r Is-gadeirydd (*neu swyddog benodol arall o'r Pwyllgor) dderbyn yr achwyniad yn ysgrifenedig. Yna bydd e/hi'n ymchwilio a phenderfynu ar y camau gweithredu priodol.*

Fel rheol, dylai'r Aelod o'r Pwyllgor dderbyn ateb o fewn 21 diwrnod i'r achwyniad gwreiddiol. Os nad yw ef / hi yn fodlon â'r ateb, gall ef / hi apelio i'r Cadeirydd (neu swyddog benodol arall os nad yw'r Cadeirydd wedi delio â'r achwyniad), yn ysgrifenedig yn amlinellu'r sail ar gyfer yr apêl.
Bydd yr apêl yn cael ei gyfeirio at Banel Apeliadau Achwynion y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn pennu cyfansoddiad y panel hwn (neu swyddog benodol arall fel uchod os yw'r achwyniad gwreiddiol yn ymwneud â'r Cadeirydd), Bydd y panel yn cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor nad ydyn nhw wedi'u cysylltu â'r achwyniad mewn unrhyw ffordd.

Fel rheol, caiff apeliadau eu clywed o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r apêl. Mae penderfyniad y panel yn derfynol; does dim apêl bellach o dan unrhyw amgylchiadau.

**Cytundeb Aelod Pwyllgor i gydymffurfio â'r Cod hwn**

**Rwy'n cadarnhau fy mod i wedi darllen a deall y ddogfen yma sy'n nodi Cod Ymddygiad y Pwyllgor:-**

**Llofnod ………………………………………………….. Dyddiad ……………………………………….**

**Enw'r Llofnodwr wedi'i brintio…………………………………………….**

Mae'r cytundeb hwn yn adlewyrchu gobeithion a nodau'r clwb a'r gwirfoddolwr sy'n cytuno i wneud y swydd yma.
Argraffwch ddau gopi o'r cod yma, a'u llofnodi. Dylai'r llofnodwr gadw un copi, a'r llall yn cael ei gadw gan Gadeirydd/Ysgrifennydd y Clwb.